

PROM

Canrif

o DDYSGU
GYDOL OES

PWYSIGRWYDD
Ymchwil

A FU BYWYD AR
Y BLANED
Mawrth
ERIOED?



PROM 28

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn PROM. Mae dros 50,000 ohonoch yn darllen y cylchgrawn bellach, ac mae nifer cynyddol ohonoch yn ei dderbyn ar ffurf ddigidol ar y cyd ag e-newyddlen fisol Aber.

Ynghyd â'r newyddion, cewch ddysgu am ein hymchwil arloesol, dysgu sut mae cyn-fyfyrrwyr ledled y byd yn cefnogi myfyrwyr presennol Aber, a hel atgofion am chwaraeon yn Aber.

Mae croeso ichi gysylltu â ni unrhyw bryd os oes gennych sylwadau ynglŷn â'r cylchgrawn, neu os hoffech rannu eich stori. Mae'n bleser clywed oddi wrthyd!

Dylan Jones

Rheolwr Ymgysylltu Alumni a Rhoddion Unigol
dej20@aber.ac.uk

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

- @aber_alumni
- Aberystwyth Alumni | Cyn-fyfyrrwyr Aber
- +44 (0) 1970 62 1568
- alumni@aber.ac.uk
- aber.ac.uk/cy/alumni

Cofiwch y gallwch ddiweddarau eich manylion cysylltu a'ch dewisiadau drwy fynd i alumni.aber.ac.uk/cy/login.

DIWEDDARU'R POLISI PREIFATRWYDD

Mae ein datganiad preifatrwydd wedi'i ddiweddarau ac mae'n rhoi gwybodaeth ychwanegol am y data a gedwir gennym amdanoch chi, sut y caiff ei gasglu a'i brosesu, yr hyn a wnawn gyda'r data hwnnw, a'ch hawliau o dan reoliadau GDPR. Gallwch ddarllen y datganiad preifatrwydd newydd yn llawn yma: www.aber.ac.uk/cy/development/data-protection



Croeso i'r rhifyn hwn o PROM. Mae'n bleser mawr gennym rannu rhai o'r straeon diweddaraf o bob cwr o'r Brifysgol.

Cafwyd cychwyn bendigedig i'r flwyddyn academiaidd newydd ym mis Medi 2019 pan gawsom wybod ein bod wedi ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru ar gyfer 2020 yng *Nghanllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times*. Nid oedd sicrhau'r gydnabyddiaeth hon yn dasg hawdd, wedi inni gael ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd y Dysgu ddwy flynedd o'r bron, ac mae'n brawf o waith caled ac ymroddiad ein staff ar draws y Brifysgol.

Daeth y newydd hwn toc ar ôl inni gyrraedd y brig o blith Sefydliadau Cymru a Lloegr o ran bodlonrwydd myfyrwyr yn y Deyrnas Gyfunol yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr.

Mae economi'r Canolbarth a'r Gorllewin yn wynebu heriau ac ansicrwydd sylweddol a rhaid dweud bod buddsoddi yn hanfodol ar adeg fel hon.

Mae prosiect adfywio'r Hen Goleg yn allweddol i'r Brifysgol ac i'r dref ac, ar dudalennau 6-7, ceir newyddion gwych am ein nod i drawsnewid yr Hen Goleg erbyn 2023, pan fydd y Brifysgol yn dathlu 150 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

Mae Prosiect Pantycelyn yn dod yn ei flaen yn wych, ac edrychwn ymlaen at groesawu ein preswylwyr cyntaf i'r neuadd ar ei newydd wedd ym mis Medi.

Bydd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn llawn weithredol erbyn mis Awst 2020. Bydd ArloesiAber, sy'n fuddsoddiad gwerth dros £40 miliwn, yn gartref i Ganolfannau Bio-buro, Bwyd y Dyfodol a Dadansoddi Uwch. Bydd hefyd yn gartref i Ganolfan Arloesi ac i Fiofanc Hadau'r Brifysgol, sy'n cadw dros 35,000 o fathau gwahanol o hadau a gasglwyd o bedwar ban byd dros y ganrif ddiwethaf.

Dros y flwyddyn ddiweddaraf, rydym wedi bod yn dathlu canrif o fridio planhigion yn Aberystwyth a chanmlwyddiant yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Yn 2020, byddwn hefyd yn dathlu canrif ers sefydlu'r Adran Dysgu Gydol Oes, yr ail adran hynaf o'i math yn y Deyrnas Gyfunol a'r adran gyntaf o'i math yng Nghymru.

O ganlyniad i'r datblygiadau arfaethedig dros y ddwy flynedd nesaf, megis y buddsoddiad £4.2 miliwn yng nghyfleuster ymchwil Canolfan a Labordai Milfeddygol1, agor Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth a'r cynigion cychwynnol ar gyfer gradd nyrsio newydd, mae'r cyfnod rhwng nawr a'n dathliadau yn 150 oed yn argoeli i fod yn hynod gyffrous.

Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor



CYNNWYS

- 2 Newyddion, gwobrau ac acoladau
- 4 ExoMars
- 6 Bywydd Newydd i'r Hen Goleg
- 8 Cymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr
- 9 Digwyddiadau
- 10 Canrif o Ddysgu Gydol Oes
- 12 Cyfweiliad â Dato' Mohamed Sharil Tarmizi
- 16 Rhoddion i Aber
- 18 Pwysigrwydd Ymchwil gan Colin McInnes
- 20 Anrhydeddau, Penodiadau a Llwyddiannau
- 24 Atgofion Chwaraeon

PROM 28 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

Cyhoeddwyd gan: Prifysgol Aberystwyth

Dyluniwyd gan: Y Tîm Cyhoeddiadau Digidol a Phrint, Prifysgol Aberystwyth

Argraffwyd gan: McLays

Ar y clawr: ExoMars (Llun: ESA)

Barn yr awduron unigol a fynegir yn PROM ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau cywirdeb a dibynadwydd y deunydd a gyhoeddir, nid yw'r cyhoeddwr yn derbyn dim cyfrifoldeb am honiadau a wneir gan gyfranwyr.

GWOBRAU AC ACOLADAU

Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru



Cyhoeddodd *The Times / The Sunday Times Good Unviersity Guide* mai Aberystwyth yw Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru yn 2020. Golyga'r anrhydedd ddiweddaraf hon bod y Brifysgol wedi'i chydabod yn y Guide dair blynedd o'r bron bellach. Fe'i henwyd yn Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu yn 2017 a 2018.

Cyrraedd y brig o ran boddhad myfyrwr



Barnwyd mai Aberystwyth oedd y brifysgol orau yng Nghymru a Lloegr, a daeth yn ail yn y Deyrnas Gyfunol o ran boddhad cyffredinol myfyrwr yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwr yn 2019.

Yn yr un modd, cyhoeddwyd yn rhifyn 2020 o dabl gynghair prifysgolion *The Guardian* bod rhai o'r myfyrwr mwyaf bodlon eu byd yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Brifysgol ar frig y tabl o ran boddhad myfyrwr â'r adborth a gânt, a daeth yn ail o ran boddhad myfyrwr â safon y dysgu a'r cwrs.

100 Uchaf Stonewall



Enwyd y Brifysgol yn un o'r cyflogwyr mwyaf cynhwysol yn y Deyrnas Gyfunol gan Stonewall, elusen sy'n sicrhau cydraddoldeb i Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurwiol a Thrawsrywedol, yn ei Rhestr o 100 Cyflogwr Gorau yn 2019.

Gwobrau Dewis y Myfyrwr Whatuni



Anrhydeddwyd y Brifysgol deirgwaith yng Ngwobrau Dewis y Myfyrwr Whatuni 2019. Dyfarnwyd gwobr aur i'r Brifysgol yn y categori Uwchraddedig am yr ail flwyddyn yn olynol. Dyfarnwyd iddi hefyd wobwr arian yng nghategori Prifysgol y Flwyddyn ac yn y categori Rhyngwladol.

Tystiolaeth DNA amgylcheddol yn cefnogi amddiffyn ardal natur am y tro cyntaf

Mae mathau prin o ffyngau a ganfuwyd gan dechneg DNA amgylcheddol newydd a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi arwain at ddynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ger Birmingham.

Cafodd Parc Gwledig Leasowes yn Halesowen ei ddynodi'n SoDdGA ym mis Chwefror 2019 wedi i wyddonwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth ddefnyddio'r dechneg arloesol i ganfod presenoldeb amrywiaeth anarferol o uchel o gapiau cwyr. Hwn yw'r tro cyntaf yn y byd i hyn gael ei wneud.

Datblygwyd y dechneg gan Dr Gareth Griffith, Darllenwyd mewn Mycoleg yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Gall y dechneg ddatgelu bodolaeth y ffyngau lliwgar ar unrhyw adeg o'r flwyddyn trwy ddadansoddi samplau pridd, hyd yn oed heb aros i fadarch ymffurfio.



Un o'r capiau cwyr a ganfuwyd gan dechneg DNA

Yr Hen Goleg yn serennu ar y sgrin fach

Yr Hen Goleg Aberystwyth yw un o sêr cyfres boblogaidd Netflix, *The Crown*.

Rhyddhawyd y drydedd gyfres hirddisgwyliedig y mis Tachwedd 2019 ac mae cyfnod Tywysog Cymru fel myfyrwr israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cael lle amlwg iawn ynddi.

Mae'r Hen Goleg, yn ogystal â Neuadd Pantycelyn, yn ddau o leoliadau'r chweched bennod sy'n adrodd hanes y Tywysog Charles fel myfyrwr yn Aberystwyth yng ngwanwyn 1969, a'i arwisgiad fel Tywysog Cymru yng Nghaernarfon.



Mark Lewis Jones fu'n portreadu Dr Teddy Millward, a gafodd y cyfrifoldeb o ddysgu Cymraeg i'r Tywysog Charles yn ystod ei arhosiad ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1969. Llund: Netflix

A yw dynion mewn gwirionedd yn fwy doniol na menywod?

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Gogledd Carolina wedi bod yn profi'r canfyddiad cyffredin bod dynion yn fwy doniol na menywod.

Aethant ati i gwblhau'r adolygiad systematig cyntaf erioed a gymharai gallu menywod a dynion i fod yn ddoniol.

Dengys eu canfyddiadau bod dynion, ar gyfartaledd, yn fwy doniol na menywod.

Esbonia'r Seicolegydd Esblygiadol, Dr Gil Greengross, o'r Adran Seicoleg yn Aberystwyth: "Mae hiwmor yn ffenomen gymhleth sy'n cynnwys dylanwadau cymdeithasol, emosiynol, ffisiolegol, gwybyddol, diwyllianol, esblygiadol, a llawer mwy. Un agwedd bwysig yw'r gallu i wneud i eraill chwerthin.

"Pam, ar gyfartaledd, y mae dynion yn well na merched am wneud i eraill chwerthin? Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hiwmor yn chwarae rhan fawr wrth chwilio am gymar, a bod sail esblygiadol gref dros hynny. Mae cysylltiad cryf rhwng hiwmor a deallusrwydd, sy'n esbonio pam y mae menywod yn gwerthfawrogi dynion sydd â synnwyr digrifwch gwych, gan fod deallusrwydd wedi bod yn hanfodol i'n goroesiad trwy gydol ein hanes esblygiadol pan oeddem yn bennaf yn byw mewn grwpiau helwyr-gasglwyr."

"Mae'n well gan ddynion, ar y llaw arall, fenywod sy'n chwerthin ar eu hiwmor. Mae hynny'n golygu, drwy gydol ein hanes esblygiadol, ei bod yn debygol fod dynion wedi gorfod cystadlu'n galetach â dynion eraill i greu argraff ar fenywod â'u synnwyr digrifwch."



Dr Gil Greengross, Seicolegydd Esblygiadol ac arbenigwr ar seicoleg hiwmor

Gwyddonwyr Aber yn sicrhau nawdd i fynd i'r afael â diabetes yn Affrica

Mae gwyddonwyr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) wedi sicrhau cyllid i ddatblygu cynydu a all helpu i atal problemau diabetes yn Affrica, sydd ar gynydd yno.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod dros 25 miliwn o bobl yn dioddef o ddiabetes math-2 yn Affrica ar hyn o bryd, a disgwylir i'r niferoedd godi i 41 miliwn erbyn 2045.

Mae asiantaeth arloesedd y Deyrnas Gyfunol, Innovate UK, bellach wedi cyd-ariannu prosiect £500k sy'n cael ei arwain gan wyddonwyr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) i ddatblygu cynydu - ac yn benodol amrywiaethau a hybridiau o filed perlog - sy'n gallu ffynnu yn Affrica Is-Sahara.

Canfuwyd bod miled perlog yn helpu i atal defnyddwyr rhag datblygu diabetes math-2, yn ogystal â helpu dioddefwyr i reoli eu cyflwr. Mae'n fwyd ffeibrog iawn gan ei fod yn cael ei dreulio'n araf, sy'n helpu i gynnal lefelau'r siwgr yn y gwaed dros gyfnod cymharol hir.

Bydd y prosiect yn ceisio amlhau i'r eithaf gydnherthedd cynydu miled perlog a chanddynt fynegai glycemic isel i'w ffermio yn y rhanbarth.



Gôl-geidwad talentog yw'r diweddaraf i dderbyn Ysgoloriaeth Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth

Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Prifysgol Aberystwyth a Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth i'r gôl-geidwad talentog, Alex Pennock.

Mae Alex, sy'n ddeunaw oed ac yn dod o Aberystwyth, yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf sy'n astudio BSc mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Tra bo'n astudio ar gyfer ei radd, bydd Alex yn chwarae i Glwb Pêl-droed Tref Aberystwyth yn Uwch Gynghair Cymru a hefyd i dîm pêl-droed Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Cymru (BUCS).

Mae Ysgoloriaeth Prifysgol Aberystwyth a Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth yn werth £4,000 y flwyddyn a cheir ystod o fanteision eraill. Yn eu plith mae aelodaeth Blatinwm o Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol, cyfleoedd datblygu hyfforddiant pêl-droed, yswiriant meddygol, gwasanaeth ffisiotherapi, a chit ar gyfer gemau ac ymarfer.

Ariennir yr ysgoloriaeth ar y cyd gan Glwb Pêl-droed Tref Aberystwyth a Chronfa Aber y Brifysgol, sy'n derbyn rhoddion gan gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth o bob cwr o'r byd.

Prifysgol Aberystwyth yw prif noddwr Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth ar gyfer tymor 2019-20.

A fu bywyd ar y blaned Mawrth erioed?



Geiriau gan Dr Helen Miles, Darlithydd yn yr Adran Gyfrifiadureg a Dr Matt Gunn, Darlithydd yn yr Adran Ffiseg ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n rhan o'r tîm sy'n gweithio ar daith ExoMars.

Mae gan smotyn bach coch yn awyr y nos y gallu i ateb un o'r cwestiynau mwyaf sylfaenol - ai dim ond ar y Ddaear y mae bywyd i'w gael?

Erbyn hyn, mae Mawrth yn blaned sych a digroeso, ond mae gennym dystiolaeth sy'n awgrymu ei bod yn y gorffennol pell yn debycach i'r Ddaear, a chanddi gefnforoedd ac atmosffer amddiffynnol a allai fod wedi cynnal bywyd. Er bod yr atmosffer a'r dŵr ar yr arwyneb wedi hen ddiplannu, pe bu bywyd ar y blaned erioed fe ddylai fod olion ohono y gellid efallai eu gweld heddiw - ond bydd yn rhaid mynd yno i chwilio amdanynt.

Hyn yw nod taith ExoMars - sef mynd i'r blaned Mawrth i chwilio am arwyddion bywyd sydd, neu a fu, yno.

Menter ar cyd rhwng yr Asiantaeth Ofoed Ewropeaidd (EAS) a Roscosmos - corfforaeth wladwriaethol Rwsia ar gyfer gweithgareddau gofod - yw taith ExoMars. Mae dwy ran i'r daith: sef lloeren a lanswyd yn 2016, sydd bellach ar waith ac yn cylchdroi o amgylch Mawrth; a chrwydrwr soffistigedig o'r enw 'Rosalind Franklin' sydd i fod i gael ei lansio ddiwedd yr Hydref 2022. Er mai daearegwyr maes robotig oedd cerbydau crwydrol Mawrth yn y gorffennol, a anfonwyd i'n cynorthwyo i weld sut yr esblygodd Mawrth i'w chyflwr presennol, bydd gan Rosalind Franklin bob math o adnoddau ac offer a gynlluniwyd yn benodol i chwilio am amgylcheddau y gellid byw ynddynt a chanfod olion bywyd.

“Mae'n wirioneddol gyffrous gwneud caledwedd i gerbyd crwydro Mawrth a gwybod y bydd ar blaned arall, gyda logo Prifysgol Aberystwyth arno, yn fuan iawn.”

Dr Matt Gunn, Prifysgol Aberystwyth

Heb atmosffer amddiffynnol, bydd miliynau o flynyddoedd o fod yn agored i belydrau'r haul wedi dinistrio unrhyw beth (byw neu wedi hen farw) ar yr wyneb. I ymdrin â hyn, bydd gan Rosalind Franklin ddril er mwyn casglu samplau sydd 2 metr islaw'r wyneb lle bydd mwy o amddiffyniad rhag yr haul.

Yn achos y cwbl, haws dweud na gwneud - nid mater hawdd fydd dod o hyd i fan addas i ddrilio o bellter o gan miliwn cilometr. Fel y byddem yn ei wneud ar y Ddaear, y ffordd orau i wneud hyn yw chwilio am y math cywir o greigiau ar yr wyneb, a hyn fydd swyddogaeth y system Gamera Banoramig - 'PanCam'.

Offer go ddatblygedig yw PanCam, ac mae'n medru dal gwybodaeth mewn lliw, stereo (gwybodaeth 3D) ac yn aml-sbectrol (sy'n golygu y gallwn gael gwybodaeth wedi'i chydrannu'n ofodol am fwynau). Labordy Mullard ar gyfer Gwyddor y Gofod (MSSL) yn UCL sy'n arwain ar waith datblygu PanCam, ac mae'r cydrannau a'r is-systemau iddo wedi'u darparu gan arbenigwyr o bob cwr o Ewrop - gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth.

Mae Adran Ffiseg a Chyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth yn gwneud sawl cyfraniad allweddol i dîm PanCam, sef:

- dylunio a gwneud caledwedd,
- cynnal efelychiadau ar system y camerâu er mwyn helpu i gynllunio gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r system honno,
- cynnal gwaith graddnodi PanCam,
- ac ysgrifennu'r feddalwedd i brosesu'r delweddau a dynnir gan PanCam.

Prifysgol Aberystwyth sydd wedi darparu'r "Pethau Bychain" i PanCam: sef targed graddnodi lliw, cyfres o nodwyr sefydlog ar gyfer gwirio'r graddnodi geometrig, a Drych Archwilio'r Crwydrwr, sy'n golygu y bydd PanCam yn gallu gweld rhannau o'r cerbyd crwydro na fyddent yn weladwy fel arall.

Drwy efelychu'r hyn a welir gan PanCam, bydd y tîm yn deall sut y gallai rhai dilyniannau o ddelweddau gael eu rhedeg ar Fawrth, ond



(Llun: ESA)

mae'r gwaith hwnnw hefyd wedi ein helpu i ddylunio a chynnal rhai o'r profion graddnodi. Ni fydd modd gwirio a ellir tynnu rhai delweddau, na'r hyn y bydd y camerâu yn gallu ei weld os ceisiwn ni wneud hynny, nes i'r crwydrwr laniog ar Fawrth. Er enghraifft, gosodir y drych ar flaen y cerbyd, o dan y blwch drilio. Mae'r dril wedi'i osod ar gyfer y daith i Fawrth â bolltau toradwy (bolltau cryfion sy'n chwalu i ryddhau'r offer - dim ond unwaith y gellir eu defnyddio!), felly ni fydd PanCam yn gallu gweld y drych nes bod y cerbyd yn glanio ac yn rhyddhau'r dril.

Ystyr graddnodi camera yw cofnodi a deall beth yn union y gall y camera hwnnw ei wneud, ac mae hynny'n cynnwys deall unrhyw fannau gwan. Heb gynnal gwaith graddnodi digonol, ni allwn fod yn siŵr bod y data a gesglir gan y camera yn gywir. Mae'r gwaith prosesu data yn cynnwys y cywiriadau sy'n deillio o'r graddnodi er mwyn i'r gwyddonwyr gael delweddau sy'n fanwl-gywir, â'r lliwiau iawn, ac yn ystyrlon.

Cynhelir y graddnodi ar y camera cyn i'r lansiad, ond bydd y gwaith yn parhau yn ystod y cyrch ei hun. Cynhaliwyd cyfres o brofion llym eleni yn MSSL ac yn ffatri Airbus yn Stevenage (lle yr adeiladwyd y cerbyd crwydro), i weld sut mae'r camera yn ymateb. Er mwyn cael delweddau sy'n rhoi'r lliwiau cywir, mae'n rhaid inni bennu cydbwysedd lliw gwyn yr heulwen ar Fawrth. Ar y Ddaear byddai hynny'n golygu bod y ffotograffydd yn addasu gosodiadau'r camera a phenderfynu beth sy'n rhoi'r darlun gorau, ond ni fydd gennym yr amser na'r gallu i anfon yn ôl llawer o ddelweddau o'r cerbyd ar Fawrth er mwyn gwneud mân addasiadau i'r gosodiadau. Yn lle hynny, defnyddiwn offer sy'n dangos lliwiau rydym yn gwybod yn union beth yw eu nodweddion, sef y targed graddnodi lliw.

Bydd y crwydrwr Rosalind Franklin yn cludo'r Targed Graddnodi PanCam a gafodd ei ddatblygu a'i wneud ym Mhrifysgol Aberystwyth at y diben hwnnw.

Mae'r crwydrwr bellach wedi ei roi at ei gilydd ac ar hyn o bryd mae'n cael ei brofi yn Toulouse. Pan fydd y cyfnod hwn drosodd caiff ei integreiddio i'r llwyfan glanio cyn ei gludo i Baikonur ar gyfer y lansio yn yr hydref 2022. Byd y daith i'r blaned Mawrth yn cymryd misoedd lawer ac fe ddylai laniog ar y blaned yn y gwanwyn/haf 2023. Y tro nesaf y byddwn yn tynnu lluniau o'r rhannau a gynhyrchwyd gan Brifysgol Aberystwyth fe fyddant ar wyneb blaned arall.

MAWRTH - FFEITHIAU CHWIM



Caiff ei galw y "Blaned Goch" - am fod haearn yn y creigiau, y pridd, a'r llwch wedi ocsideiddio.



Ar gyfartaledd, y pellter rhwng Mawrth a'r Ddaear yw 140 miliwn o filltiroedd.



Mae blwyddyn ar y blaned Mawrth yn para bron i ddwywaith mor hir â blwyddyn ar y Ddaear (687 diwrnod).



2 leud bach, Phobos a Deimos.



Gall y tymheredd fod cyn uchod â 27°C a chyn ised â -133°C.

MAINT [diamedr cyhydeddol]

Mawrth

1/2

4220 milltir
6792 km

Y Ddaear

1

7926 milltir
12756 km

Lleud y Ddaear

1/4

2159 milltir
3475 km

Dr Dave Barnes

Dechreuwyd cyswllt Prifysgol Aberystwyth â thaith ExoMars gan y diweddar Athro Dave Barnes, Athro Roboteg y Gofod a'r Planedau yn yr Adran Gyfrifiadureg. Yn drist iawn fe fu farw fis Gorffennaf 2014.

Lansio Cyfleoedd Newydd i Gydnabod Rhoddwyr



Louise Jagger
Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni

Dewch i fod yn rhan o'n gweledigaeth

Daethom ymhell ers i ni amlinellu ein cynlluniau yn rhifyn diwethaf **PROM**. Mae cefnogaeth cyn-fyfyrrwyr a chyfeillion wedi bod yn hollol hanfodol i'r cynnydd a wnaethom. Rydych wedi ein cynorthwyo i:

- hyrwyddo pwysigrwydd y prosiect a chreu mudiad i sicrhau dyfodol yr adeilad eiconig hwn sydd mor annwyl yng ngolwg cynifer;
- llunio'r cynlluniau a'r gweithgareddau blaengar a chreadigol y bydd myfyrwyr, staff, y gymuned ac ymwelwyr yn elwa ohonynt;
- rhoi ffurf i'n cynlluniau a chyngor arbenigol i'n gweithgareddau a'n cynllun busnes;
- codi cyfanswm rhyfeddol o £950,000 tuag at darged ein apêl o £3 miliwn trwy roi pob lefel o gyfraniadau a gynorthwyodd i sbarduno grantiau sylweddol.

Mae'r rhoddion a'r grantiau mawr hyn yn symiau sylweddol yn yr hinsawdd hynod gystadleuol sydd ohoni. Maent yn dangos yn eglur ansawdd ein cynlluniau trawsnewid a hyder ynddynt, a pharhad cynaliadwyedd a datblygiad yr Hen Goleg yn ganolfan i addysg, diwylliant a menter a chanddi apêl lleol, cenedlaethol a rhyngwladol; a fydd yn darparu adnoddau cymorth ac astudio sydd mawr eu hangen i fyfyrwyr yn y dref, stafelloedd gwesty, sawl caffi a bar, mannau bwyta ac ystafelloedd y gellir eu llogi gan glybiau myfyrwyr, gan ein cymuned a busnesau.

Y prif grantiau a enillwyd

Bu eich cyfraniadau chi a momentwm y gefnogaeth yn allweddol i'n cynorthwyo i sicrhau'r grantiau pwysig hyn ym mis Ionawr 2020:

£10 MILIWN

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

70%

wedi ei godi o gyfanswm costau'r prosiect, sef...

£7 MILIWN

Llywodraeth Cymru a'r UE.

£27.6 MILIWN

Rydym yn parhau i groesawu syniadau am ymddiriedolaethau a sefydliadau y gallem efallai gysylltu â hwy i wneud cais, ac i drafod unrhyw gysylltiadau personol sydd gennych â hwy a allai o bosibl fod yn ddefnyddiol.

£1.2 MILIWN

Ymddiriedolaethau a sefydliadau mawrion, llawer ohonynt heb roi o'r blaen i'r Brifysgol nac yng Nghymru ar y lefelau hyn.

MYNEDIAD CYHOEDDUS AC ATRIWM

- 1 Atrium ac Ystafell Digwyddiadau
- 2 Caffi a Bar
- 3 Mynediad Cyhoeddus

YMRWYMIAD I DDIWYLLIANT A'R GYMUNED

- 1 Llyfrgell: Y Lle
- 2 Yr Hen Neuadd: Man Aml-Bwrpas ac Arddangosfeydd
- 3 Ystafelloedd Gwely
- 4 Ystafelloedd Dysgu a Gweithgareddau
- 5 Ardal Cymunedol Y Cwad a Oriel Gelf
- 6 Tŵr: Stiwdios Artistiaid

CYFARFODYDD A DEIALOG


- 7 Talwrn Trafod
- 8 Ystafell Seddon

BYD O WYBODAETH

- 1 Canolfan Uwchfeyddiaid: Swyddfeydd Ymchwil ac Astudio
- 2 Canolfan Dysgu
- 3 Canolfan Gwyddoniaeth
- 4 Arddangosfa o Hanes y Brifysgol
- 5 Man Ieuencid
- 6 Man Dysgu 24-awr Myfyrwyr

MENTER AC ARLOESED

- 1 Canolfan Menter a Busnes



Cyfleoedd i Gydnabod Rhoddwyr yn yr Hen Goleg

Cafodd ein cyfleoedd creadigol i gydnabod rhoddwyr eu datblygu ar y cyd â chyn-fyfyrrwyr, cyfranwyr a'n penseiri er mwyn sicrhau bod cyfraniadau rhoddwyr yn cael eu cydnabod yn barhaol a'u dathlu ar draws yr Hen Goleg, ac ar bob lefel o roddion.

Gellir gweld manylion y cyfleoedd hyn ar gyfer y Llyfrgell, y Cwad, y Talwrn Trafod, y ganolfan Wyddoniaeth a'r Atrium trwy ddilyn y ddolen hon www.aber.ac.uk/cy/donorrecognition.

Pe byddech yn hoffi trafod syniadau personol penodol ynglŷn â chydabyddiaeth y gellid eu cynnwys yn ein cynlluniau, cysylltwch â ni trwy e-bostio alumni@aber.ac.uk.

Bydd cyn-fyfyrrwyr sy'n rhoi £1,000 yn cynnwys Rhodd Cymorth yn cael eu gwneud yn aelodau o Gyloch Rhoddi'r Is-Ganghellor yn awtomatig. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn boblogaidd iawn ledled y byd, ac mae'r pin aur arbennig sy'n gysylltiedig â'r cylch wedi cael ei wisgo i ddatlu mewn digwyddiadau ymhob rhan o Brydain, yr Unol Daleithiau a Maleisia.

Mae tîm y prosiect nawr yn brysur yn dod â'r gwahanol agweddau ynghyd er mwyn paratoi ar gyfer dechrau ar y gwaith adnewyddu yn nes ymlaen eleni - ac ar gyfer agor yn y gwanwyn 2023 ym mlwyddyn dathlu canrif a hanner y Brifysgol.



Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC (Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Y Farwnes Kay Andrews OBE, Ymddiriedolwraig y DU a Chadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru

APÊL YR HEN GOLEG 2020/23

Diolch am eich cefnogaeth wych i'n gweledigaeth ar gyfer yr Hen Goleg yn ystod y blynyddoedd cynnar hollbwysig. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar i Gymdeithas y Cyn-fyfyrrwyr am ei chymorth strategol a'u hanogaeth wrth i ni gynyddu ein gallu a lansio'r apêl codi arian. Daethom cyn belled â hyn diolch i gefnogaeth a haelioni cymaint o gyn-fyfyrrwyr a chyfeillion, ond mae ffordd bell i'w theithio o hyd.

Wrth fynd ymlaen, ni allaf orbwysleisio pa mor hanfodol i lwyddiant y prosiect yw parhau i godi arian. Trwy weithio gyda'n gilydd a rhannu syniadau, rwy'n hyderus y gallwn godi'r £2 filiwn sy'n weddill a chyrraedd ein targed o £3 miliwn. Byddwn yn parhau i wahodd cyfraniadau ac addewidion hyd at 2023 trwy gyfrwng ymgyrchoedd a gweithgareddau codi arian sy'n ysbrydoli cefnogaeth, ac yn rhannu uchelgais â'n cyn-fyfyrrwyr a'n cyfeillion fel un cymuned fyd-eang.

Diolch eto am eich anogaeth, eich cyngor a'ch rhoddion i gefnogi'r cyfle unwaith mewn oes hwn i ddiogelu dyfodol yr Hen Goleg ar gyfer myfyrwyr, staff, cyn-fyfyrrwyr a'n cymuned.

Er ei bod yn annhebygol y gallwn gyhoeddi bod diwrnod yr ailagor yn wyl gyhoeddus fel y gwnaeth y Brifysgol pan agorwyd yr Hen Goleg ym 1872, mae'r Is-Ganghellor, staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrrwyr a'r gymuned eisoes yn cynllunio'r parti mwyaf a gynhaliwyd ers hynny! Gobeithio'n fawr y bydd cyn-fyfyrrwyr o bob rhan o'r byd yn ymuno â ni i ddatlu ac edrychwn ymlaen i weithio gyda chi wrth baratoi'r achlysur hwn ac ar gyfer ein cynlluniau ehangach ar gyfer dathlu'r ganrif a hanner.

Gallwch chi fod yn rhan o'r weledigaeth hon a chefnogi'r apêl trwy roi ar-lein yn www.aber.ac.uk/cy/appeal

Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr



Aber am byth!

Gwenda Sippings
Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, 2018-20

Un o'r pethau gorau am fod yn Aelod Oes o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr (OSA) yw cyfarfod â myfyrwyr o bob cenhedlaeth a disgyblaeth, a rhannu profiadau o'n cyfnod yn Aberystwyth. Gallwn gyfathrebu'n rhwydd oherwydd y cysylltiadau cryf sy'n ein clymu i'r Brifysgol a'r Dref. Wrth gwrs rwyf i'n cysylltu'n rheolaidd gyda ffrindiau agos o fy nghyfnod yn Aberystwyth beth bynnag, ond mae cyfarfod â chymuned ehangach o gyn-fyfyrwyr yn sicr wedi cyfoethogi fy mywyd nawr fy mod i wedi dychwelyd yma i fyw yn dilyn gyrfa yn Bedford a Llundain.

Mae cynrychioli Aelodau OSA fel Llywydd yn 2018-20 yn bwysig iawn i fi, ac rwy'n ddiolchgar i'r holl bobl sydd wedi cynnig eu hamser yn wirfoddol dros y blynyddoedd i helpu'r Gymdeithas i ffynnu. Mae Prosiect yr Hen Goleg wedi gwneud i fi feddwl mwy am y grŵp bach o gyn-fyfyrwyr a gododd yr hyn sy'n cyfateb i £1miliwn yn arian heddiw i dalu dyled Adeilad y Coleg yn 1892, ac a ffurfiodd Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Mae cerflun o'r Llywydd cyntaf, a wnaeth gymaint ar ran y Brifysgol a'r Gymdeithas, yn dal i fod yn y Cwad. Mae aelodau Cangen OSA yn ddiweddar wedi trawsgrifio cyfrolau cynnar y Cofrestrau Myfyrwyr i fformat digidol, gan ddatgelu mwy am y myfyrwyr cyntaf hynny. Tan y 1990au pan sefydlwyd y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Myfyrwyr, ac yr ymddangosodd y Rhyngwladol, y Gymdeithas oedd yr unig ffordd ffurfiol i Gyn-fyfyrwyr gadw cyswllt â'i gilydd a gyda'r Brifysgol. Erbyn heddiw rydym i'n gallu manteisio ar gysylltu drwy ebost, y we a'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag wyneb yn wyneb mewn Cyfarfodydd Cangen a digwyddiadau eraill, a'r Aduniad Blynyddol yn cyd-ddathlu canmlwyddiant Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Bridio Planhigion yn 2019 yn ogystal ag edrych ymlaen at hanner canmlwyddiant Cyfrifiadureg yn 2020.

Ers 2013 mae'r holl fyfyrwyr yn cael eu cofrestru'n Aelodau Cyswllt o OSA wrth raddio, a chânt eu croesawu i'n Haduniad Blynyddol, a drefnir ar y cyd bellach gyda thîm rhagorol y Brifysgol yn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Myfyrwyr. Fodd bynnag mae Aelodaeth Oes yn cynnig mynediad i grŵp annibynnol o gyn-fyfyrwyr sydd â diddordeb arbennig yn llwyddiant parhaus y Brifysgol. Rydym ni'n mynychu Llys y Brifysgol, Diwrnod y Sylfaenwyr a digwyddiadau eraill, gan gynrychioli cyn-fyfyrwyr a chyfrannu ein barn ar ddatblygiadau yn y Brifysgol o'n cronfa ein hunain o brofiad ac arbenigedd. Rydym ni'n edrych ymlaen at gyfrannu at gynlluniau'r canmlwyddiant a hanner yn 2022/23. Mae aelodaeth oes ar gael am un taliad o £20 yn unig, a chaiff yr arian hwn ei ddefnyddio i gefnogi mentrau dan arweiniad y Brifysgol a Myfyrwyr, gan hyrwyddo cymuned ymhlith cyn-fyfyrwyr yn y DU ac yn rhyngwladol. Rydym ni'n falch i gael aelodaeth mor eang ym mhedwar ban byd, ac rydym ni bob amser yn falch iawn i groesawu mwy ohonoch i'r Gymdeithas. Os gadawoch chi ddarn o'ch calon yn Aberystwyth, mae Aelodaeth Oes yn ffordd fach ond effeithiol o dalu teyrnged i'r dyddiau pwysig hynny, gan sicrhau eu bod yn parhau i fyfyrwyr y dyfodol.

26 - 28 MEHEFIN

Aduniad a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol OSA. Dathlu hanner canmlwyddiant yr Adran Cyfrifiadureg, a chanmlwyddiant Dysgu Gydol Oes.

20 - 23 GORFFENNAF

OSA a Phrifysgol Aberystwyth yn Sioe Frenhinol Cymru.

13 - 17 GORFFENNAF

OSA yn Seremonïau Graddio Aberystwyth.

1 - 8 AWST

OSA a Phrifysgol Aberystwyth yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Nhregaron.

Rhagor o wybodaeth am ddod yn Aelod Oes o OSA: www.aber.ac.uk/cy/development/osa

Gwybodaeth a newyddion am OSA: www.osaaber.org a www.ccfaber.org

[@Aber_OSA](https://www.instagram.com/Aber_OSA)

Digwyddiadau i Gyn-fyfyrwyr

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal amrywiaeth dda o ddigwyddiadau i gyn-fyfyrwyr a chyfeillion - yma ar y campws, ledled Prydain ac yn rhyngwladol. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sy'n dod i'r digwyddiadau ac sy'n cynorthwyo i'w trefnu, wrth i ni barhau i dyfu ein rhwydwaith byd-eang.

Bydd llawer ohonoch hefyd yn cynnal eich aduniadau eich hunain ar adegau trwy'r flwyddyn, ac mae'n braf clywed eich straeon a gweld ffotograffau o'r grwpiau. Cofiwch barhau i'w rhannu ag alumni@aber.ac.uk Gellir gweld y digwyddiadau sydd ar y gweill yn www.aber.ac.uk/cy/development/newsandevents/

Diwrnod y Sylfaenwyr

11 Hydref 2019

Daeth staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac aelodau o'r gymuned leol ynghyd yn rhan o ddatblygiadau Diwrnod y Sylfaenwyr, sy'n nodi pen-blwydd agor drysau'r Brifysgol am y tro cyntaf yn ôl ym 1872. Cafodd criw o gerddwyr eofn eu harwain gan yr Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure, i anrhydeddu traddodiad hirsefydlog Aberystwyth o 'gicio'r bar' tu allan i Neuadd Alexandra, cyn mynd yn ôl i'r Hen Goleg i fwynhau brecwast dathlu.

Yn dilyn y dathliad hwn yn Aberystwyth, fe gynhelir digwyddiad Sylfaenwyr poblogaidd yn adeilad y Pierhead yng Nghaerdydd.



Gŵyl y Gelli | Mai 2019

Cynhaliwyd cyfres o dair darlith nodedig mewn derbynriad i gyn-fyfyrwyr yng Ngŵyl y Gelli 2019, yn rhan o bartneriaeth newydd rhwng Prifysgol Aberystwyth a'r achlysur diwylliannol a llenyddol pwysig hwn.



Clwb Alumni Maleisia | Ebrill 2019

Roedd yn bleser cael croesawu Dato' Azlan Alymann, Llywydd Clwb Alumni Aberystwyth ym Maleisia, a'i wraig, Nazdriah, yn ôl i Aberystwyth yn rhan o'u hymwelriad â Phrydain ac i weld eu mab Imann, sy'n Llywydd presennol Cymdeithas Myfyrwyr Maleisia ac yn fyfyrwr Seicoleg.



Xi'an, Tsieina | 20 Mawrth 2019

Roedd yn bleser mawr gennym groesawu cynifer o gyn-fyfyrwyr i'n derbynriad yn Xi'an, yn rhan o ymweliad y Brifysgol i ddatblygu partneriaethau academaidd ac i barhau i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dod yma o'r rhanbarth. Edrychwn ymlaen i ymweld â'r lle eto eleni, ac rydym wedi trefnu ymweld â dinasoedd eraill yn Tsieina, Hong Kong, Singapôr a Maleisia.

Aduniad Cyn-fyfyrwyr | 21-23 Mehefin 2019

Cafodd dros 150 o gyn-fyfyrwyr eu croesawu'n ôl i Aberystwyth am aduniad gyda Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr i ddatblygu canmlwyddiant Bridio Planhigion a chanmlwyddiant yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.





Dosbarth gwneud menynd yn yr Adeilad Llaeth, 1943 (Llun: Archifau Prifysgol Aberystwyth)



Myfyrwyr dosbarth mosäig wrth eu gwaith

Dysgu Gydol Oes yn dal i ffynnu ar ôl 100 mlynedd



Alison Pierse
Cydllynydd Dysgu Gydol Oes

Eleni, rydym yn nodi canmlwyddiant sefydlu adran ym Mhrifysgol Aberystwyth i ddarparu dysgu gydol oes i'r gymuned leol. Un o'r tiwtoriaid presennol yw Alison Pierse ac mae hi'n bwrw golwg yn ôl ar hanes yr adran yn ogystal â thynnu sylw at yr hyn sydd ganddi i'w gynnig i'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr.

Bedyddiwyd yr Adran Gydol Oes fwy nag unwaith. Cyfeiriwyd atom fel yr Adran Efyrdiau Allanol, Addysg Barhaus, a Phrifysgol Gymunedol Cymru. Nid yw'r enw yn bwysig i ni, er hynny - yr hyn rydym yn ei wneud sy'n cyfrif. Rydym yn newid bywydau, yn cynnig cyfeillgarwch, rydym yn cwestiynu, yn datrys problemau, yn hwyluso lles; a dyna sy'n ein hannog ni, y tiwtoriaid i barhau. Ein gwobr yw newid safbwyntiau, a gweld y myfyrwyr yn blodeuo ac yn ffynnu.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-20, rydym yn dathlu ac yn rhoi diolch i'r Brifysgol am benodi'r Parchedig Herbert Morgan yn 1920 fel Cyfarwyddwr yr Adran Efyrdiau Allanol gyntaf yng Nghymru. Ganed Morgan yng nghymoedd y De, ond ni chafodd ddechreuad da o ran ei addysg oherwydd ei bod hi'n gyfyng ar ei deulu, ond rhoddyd cyfle iddo ragori yn ddiweddarach.

'Dosbarthiadau tiwtorial' oedd y dosbarthiadau efyrdiau allanol cynnar, wrth i'r tiwtor annog y myfyrwyr i ddatblygu meddwl eang ac agored. Yn 1919, roedd 3 thiwtor, 7 dosbarth a 167 o fyfyrwyr. Cynyddodd y niferoedd yn gyflym yn dilyn cyhoeddi'r *Report on Adult Education*,

a oedd yn dadlau bod addysg barhaus i oedolion o bwys hanfodol i les a sicrwydd y wlad.

Ymdeolodd y Parch. Morgan yn 1940, gan adael adran lwyddiannus a diogel. Oherwydd ei waddol yntau a'r cyfarwyddwyr eraill a'i dilynodd, mae miloedd o fyfyrwyr wedi derbyn hyfforddiant a phrofiadau a newidiodd eu bywyd.

Mae Dysgu Gydol Oes yn creu amgylchfyd dysgu diogel, yn gwredu breuddwydion ac yn meithrin unigolion. Mae'n meithrin unigolion all fod yn chwilio am wybodaeth a sgiliau newydd i newid cyfeiriad gyrfa, dechrau eto ar ôl argyfwng neu ddod yn rhan o'r gymuned. Mae gan ein myfyrwyr un peth yn gyffredin - maen nhw'n awyddus i ddysgu.

A'r hyn sy'n gyffredin rhwng pob cyfarwyddwr a thiwtor yw eu dealltwriaeth arbennig o anghenion personol ein myfyrwyr; gallwn gyflwyno dysgu yn hyblyg a denu myfyrwyr o bob gallu.

Heddiw, mae Dysgu Gydol Oes yn adlewyrchu diddordebau cyfoes ac mae ei hamcanion yn canolbwyntio'n llwyr ar y dyfodol. Cynigiwn gyrсияu mewn Datblygiad Proffesiynol, Celf, Hanes Celf, leithoedd Modern, Coleg, Hanes Teuluol, y Gwyddorau Cymdeithasol a'r Dyniaethau fydd yn aml yn cael eu dilyn gan fyfyrwyr sy'n frwd dros ddatblygiad proffesiynol. Ac nid yn Aberystwyth yn unig yr ydym yn dysgu - mae gennym ddsbarthiadau mewn pum sir yng Nghymru ar hyn o bryd.

Beth am ein helpu ni i ddathlu ein carreg filltir drwy ddechreuedd i Aber ac ymuno ag un o'n cyrsiau penwythnos dwys? Mae digon o lefydd i aros, ac os byddwch yn lwcus efallai y cewch weld machlud enwog Aber ar ddiwedd y dydd.



Pantycelyn, mwy na neuadd

Ym mis Medi 2020 bydd Pantycelyn yn agor ei drysau o'r newydd gan groesawu cenhedlaeth newydd o fyfyrwyr i aelwyd fwyaf Cymru.

Gyda buddsoddiad o £16.5m, sy'n cynnwys £5m gan Lywodraeth Cymru, mae'r neuadd gafodd ei hagor am y tro cyntaf yn 1951 yn cael ei thrawsnewid yn llety 'en-suite' i hyd at 200 o fyfyrwyr.

Ar ei newydd wedd, bydd Pantycelyn yn parhau'n gartref oddi cartref i fyfyrwyr sy'n dymuno byw mewn cymuned Gymraeg wrth iddyn nhw fanteisio ar brofiadau dysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf.

Ac, yn unol â'i naws gartrefol, hi fydd yr unig neuadd breswyl yn Aberystwyth lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu o fewn pris y llety, gan gynnig gwerth rhagorol am arian.

Yn ychwanegol mae'r adnoddau fydd ar gael yno, yn ystafelloedd astudio tawel gyda chyfleusterau cyfrifiadurol, ystafelloedd cyfarfod, y Lolfa Fach, y Lolfa Fawr, yr Ystafell Gyffredin Hŷn a'r Ystafell Gyffredin Iau yn golygu ei bod yn lle delfrydol i astudio a chymdeithasu.

Ac, wrth gwrs, dyma fydd cartref UMCA. Pantycelyn, mae'n llawer mwy na neuadd.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.aber.ac.uk/cy/pantycelyn.

Dato' Mohamed Sharil Tarmizi

Graddiodd Dato' Mohamed Sharil Tarmizi yn y Gyfraith yn Aberystwyth ym 1992 ac fe'i galwyd i'r Bar yn Gray's Inn. Ers hynny, mae wedi dilyn gyrfa fel cyfreithiwr, mewn gwaith rheolaethol, mewn gwasanaethau ariannol ac mewn mentrau newydd. Fe'i penodwyd yn ddiweddar i Fwrdd Ymgynghorol Rhyngwladol Sefydliad Prifysgol y Cenhedloedd Unedig ym Macau. Yn 2017, dyfarnodd y Brifysgol Gymrodoriaeth iddo. Siaradais ag ef drwy gyswllt fideo ynglŷn â'i gyfnod yn Aberystwyth a'r ffactorau sydd wedi'i gymhellu ers hynny.

gan John Gilbey
(gilbey@bcs.org.uk)

@John_Gilbey



Roedd hi'n blygeiniol o gynnar yn Aberystwyth, yn ddiwed y prynhawn yn Kuala Lumpur ac roedd y gwahaniaeth yn y tymheredd rhwng y ddau le yn 30 gradd. Â ffenestr ei swyddfa wedi'i chysgodi rhag heulwen Malaysia, daeth Sharil â'i alwadau ffôn munud olaf i ben a bu'n cellwair a ddylai wisgo siaced ar gyfer y cyfweiliad.

Gofynnais iddo beth a'i cymhellodd i ddewis Aberystwyth i ddilyn gradd israddedig.

"Doedd Aber ddim yn ddewis amlwg iawn. Pan oeddwn yn ymgeisio am le mewn prifysgol, gwyddai pobl lawer mwy am brifysgolion Lloegr o'u cymharu â rhai Cymru - felly y mae pethau ym Malaysia o leiaf. Drwy hap a damwain y deuthum o hyd i Aberystwyth. Euthum i Ffair Addysg Brydeinig a chefais gwrdd â phobl o'r Gyfadran. Roeddent yn bobl ffeind ofnadwy a chefais ryw hyder o siarad â nhw."

Pan gyrhaeddech chi yma, beth oedd eich argraffiadau cyntaf?

"A dweud y gwir, wyddwn i ddim beth i feddwl am Aberystwyth. Bryd hynny, doeddwn i ddim yn sylweddoli bod Cymru a Lloegr yn ddwy wlad wahanol iawn, o ran diwylliant, pobl ac iaith. Glaniais ym Mhantycelyn, a bu hynny'n ddarganfyddiad hynod ddiddorol! Bûm yn byw ym Mhantycelyn am fod Penbryn yn llawn bryd hynny. Dyma'r unig ddau opsiwn a oedd ar gael i las fyfyrwr. Treuliais dymor ym Mhantycelyn, uwchben y gegin, a dysgais Gymraeg drwy gael fy nhrochi'n llwyr!"

A oedd rhywrai'n benodol yn Adran y Gyfraith yr oeddech yn arbennig o falch o astudio â nhw?

"Oedd, sawl un! Ond petai'n rhaid imi enwi un, yr Athro John Williams fyddai hwnnw. Bryd hynny, darlithydd yn unig ydoedd, a dysgodd Gyfraith Ryngwladol imi yn y flwyddyn gyntaf. Roedd ei arddull yn ddiddorol iawn, ac roedd yn deimlad arbennig iawn pan sylweddolais ei fod yn rhannu llwyfan â mi wrth i'r Brifysgol ddyfarnu Cymrodoriaeth imi yn 2017.

Pan nad oeddech yn astudio, sut oeddech yn treulio'ch amser yn Aber?

"Wel am awgrym! Roeddwn yn astudio drwy'r amser, wrth gwrs!" medd dan chwerthin. "Tynnu coes ydw i! Roeddwn yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol. Mi wnes i beth sgwba-blymio â thîm y Brifysgol, chwaraeais beth golff a bûm yn cerdded hefyd, ynghyd â'r holl bethau eraill hynny sy'n apelio at fyfyrwr. Gallwch deimlo'n hapus yn eich croen ei hun yn Aber - gallwch ddod i adnabod eich hun yn dda, mae'r rhyddid yma i archwilio ac mae'n hawdd dod i adnabod eraill. Pan ymwelais ag Aberystwyth yn 2017, cefais fy synnu gan gymaint yr oedd y dref wedi tyfu. Mewn rhai ffyrdd, rwy'n gweld eisiau'r hen Aber - roedd yn llawer symlach".

A ydych wedi cadw cysylltiad â'ch cyfoedion yn Aberystwyth?

"Mae Facebook a LinkedIn wedi bod yn wych yn hyn o beth,

ond dw i wedi colli cysylltiad â rhai ohonynt, yn enwedig â rhai o'r bois o Gymru. Byddai'n braf gallu cadw mewn cysylltiad â rhagor ohonyn nhw! Byddwn wrth fy modd yn gweld pwy sy'n gwneud beth, ac ymhle".

Mae Sharil hefyd yn treulio llawer o'i amser â Chlwb Cyn-Fyfyrrwyr Malaysia.

"Wrth inni ffarwelio ag Aberystwyth ar ôl graddio, aeth pob un ohonom â darn bach o Aber gyda ni. Fel cyn-fyfyrrwr, ceisiwn barhau i feithrin 'ysbryd Aber', h.y. y teimlad hwnnw o berthyn i deulu, yn enwedig wrth inni helpu ein gilydd mewn busnes neu rwydweithiau corfforaethol".

Pa agweddau ar eich gyrfa sydd wedi rhoi'r bodlonrwydd mwyaf i chi?

"Hyd yma, mae fy ngyrfa wedi bod yn amrywiol iawn, ond un peth y teimlaf yn gryf iawn yn ei gylch yw y dylai popeth a wnaef gael effaith gadarnhaol wrth drawsnewid bywydau pobl. Uchelgais rhai o'm ffrindiau oedd cyrraedd y brig - y cyfreithiwr gorau neu'r bancwr gorau yn y ddinas. Nid hynny oedd fy ngalwad i, felly dyna pam y cefnais ar y gyfraith ac ymuno â'r gwasanaeth cyhoeddus a gweithio fel rheoleiddiwr telathrebu. Bryd hynny, y brif nod oedd gweld y wlad yn mabwysiadu fframwaith rheoleiddio newydd (y cyntaf o'i fath yn y byd), felly penderfynais setlo ar gyflog llai a mentro i swydd newydd. Hwn, hyd heddiw, yw'r gwaith sydd wedi rhoi'r bodlonrwydd mwyaf imi.

O ystyried yr holl weithgareddau yr ydych wedi bod ynghlwm â nhw, pa brosiect yr ydych fwyaf balch ohono?

"Roedd gen i freuddwyd...Sut y gallem helpu pobl mewn pentrefi gwledig ym Malaysia, ac yn fyd-eang, drwy ddefnyddio technoleg i drawsnewid eu bywydau a rhoi bywoliaeth newydd iddynt? Aeth nifer o sefydliadau byd-eang ati i efelychu'r rhaglen a gychwynasom ym Malaysia. Yr enw arno heddiw yw 'entrepreneuriaeth gymdeithasol'. Bryd hynny, y teitl syml arno oedd, 'Mae popeth yn bosib â Band Eang'. Hwn oedd yr arwyddair, a hon oedd ein cred. Gwyddwn fod gan fy mhiant, sy'n byw gyda mi yn y ddinas, yr holl dechnoleg ar flaenau eu bysedd, ond beth am y plant hynny yn y wlad sydd, o bosib, yn teimlo nad ydynt rywsut yn rhan o hyn? Roedd ein 'Rhaglen Gwasanaeth Cyffredinol', sy'n sicrhau mynediad i gyfathrebu a band eang, yn weddol newydd bryd hynny, ond cafodd groeso mawr gan y Cenhedloedd Unedig a chan yr Undeb Delathrebu Ryngwladol.

Mae cysylltiadau Sharil â'r Deyrnas Gyfunol yn parhau, ac un o'i swyddogaethau pwysicaf yw gweithredu ar fwrdd Ceir Lotus.

"Bûm yn rhan o drawsnewid riant gwmni Lotus a'i helpu i wneud elw unwaith eto. Mae perchnogion newydd Lotus wedi gofyn imi hefyd i'w helpu nhw i fwrw'mlaen â gwaith i drawsnewid cwmni Lotus fel y bydd yn frand byd-eang unwaith yn rhagor. Dyna pam rwy'n aelod o fwrdd y cwmni.

Daeth fy amser â Sharil i ben, ond wrth inni ffarwelio â'n gilydd, gwyddwn yn bendant y clywem lawer rhagor oddi wrth Sharil Tarmizi yn y dyfodol.

Cyn-fyfyrrwyr yn gwirfoddoli

Pa le bynnag yr ydych yn eich gyrfa, mae gwirfoddoli yn ffordd wych o dalu'n ôl i'ch prifysgol. Mae'n gyfle i ysbrydoli, i arwain ac i gynghori'r genhedlaeth nesaf o gyn-fyfyrrwyr Aber. Mae ein gwirfoddolwyr yn ein cynorthwyo ni i wella profiadau myfyrrwyr ac i'w helpu nhw â'u gyrfaedd. Fel cyn-fyfyrrwyr, mae gennych ran hollbwysig i'w chwarae yn natblygiad a gallu Aber i gyrraedd bob rhan o'r byd, ac i warchod ei henw da.

Dyma rai enghreifftiau o'r ffyrdd y mae ein cyn-fyfyrrwyr wedi cefnogi ein myfyrrwyr:

Os ydych yn gyn-fyfyriwr ac yn dymuno gwirfoddoli, e-bostiwch alumni@aber.ac.uk

Cip ar Ddiwydiant

Ben Thompson (Astudiaethau Ffilm a Theledu a Drama 2002), Rheolwr Cysylltiadau â Gwneuthurwyr Ffilmiau a Rhaglennydd Ffilmiau Byrion Gŵyl Ffilmiau Tribeca, Efrog Newydd.

Mae Ben yn gwahodd myfyrrwyr i Efrog Newydd i weld drostyn nhw eu hunain sut y mae'r diwydiant ffilmiau yn gweithredu. Mae hyn yn eu galluogi i rwydweithio a meithrin cysylltiadau â gwneuthurwyr ffilmiau a'r rhai sy'n ymddiddori mewn ffilmiau o bob cwr o'r byd, ac mae'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt. Mae Ben hefyd yn ymwneud â myfyrrwyr drwy roi cyflwyniadau rheolaidd iddynt dros Skype.

"Cafodd fy nghyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth effaith gadarnhaol iawn ar fy mywyd a'm gyrfa. Drwy helpu i ddod â myfyrrwyr i Efrog Newydd er mwyn iddynt gael profiad o ddigwyddiad fel Gŵyl Ffilmiau Tribeca, fy ngobaith yw y cânt yr hwb a'r ysbrydoliaeth angenrheidiol i ddefnyddio'u profiad yn Aber i ddechrau gwireddu'u breuddwydion a'u dyheadau."

Mentora

Steve Lawrence (Economeg a Hanes Economaidd a Chymdeithasol 1978 / MSc Economeg a Dadansoddi Busnes 1979).

Mae Steve wedi rhannu o'i brofiad a'i wybodaeth drwy ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad gyrfaol yn rhan o 'Gronfa Ysgoloriaeth Peter Hancock'. Mae'n ysbrydoli myfyrrwyr i wireddu eu breuddwydion gyrfaol ac i fagu hyder.

"Roedd fy nghyfnod yn Aber fel myfyrrwyr yn y 1970au yn hyfryd. Drwy Gymdeithas Cyn-fyfyrrwyr y Brifysgol, bu modd imi gynnal cysylltiadau cryf â'r 'Coleg'. Mae bod yn rhan o Gronfa Peter Hancock fel Mentor wedi bod yn bleser mawr. Mae gweld myfyrrwyr yn datblygu a dod yn eu blaenau, yn academiaidd ac fel unigolion, yn rhoi bodlonrwydd mawr imi. Mae mentora hefyd yn ffordd wych i gyn-fyfyrrwyr ddod i gyswllt unwaith eto â'u Alma Mater ac mae'n helpu i sicrhau rhwydwaith cryfach o bobl i wella'r profiad i israddedigion."

Ysgolheigion Peter Hancock 2019/20 o'r chwith i'r dde: Chiara Faini, y diweddar Girly Harrison, Wiktor Gawronski, Amy-Anne Williams, Fatima Orujova



Cawsom ein tristáu'n fawr gan farwolaeth sydyn yr ysgolhaig Girly Harrison ym mis Tachwedd 2019. Creodd Girly argraff enfawr ar bawb a fu'n rhan o Ysgoloriaeth Peter Hancock, ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i theulu a'i ffrindiau.

Sgyrsiau am yrfaedd

Katie Hope (Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod 2016)

Mae Katie bellach yn Bennaeth Ffiseg yn Ysgol John Bright yn Llandudno a bu'n sgwrsio'n ddiweddar â myfyrrwyr Ffiseg yn eu hail flwyddyn am y ffordd yr aeth i ddysgu ar ôl graddio.

"Cefais gefnogaeth yr Adran Gyfrifiadureg â'm bwriad i ddod yn athrawes o'r dechrau'n deg. Rwy'n dueddol o fod yn bendant fy marn ac ychydig yn awdurdodol, ond mi weithiodd hwn yn neilltuoel o dda gan inni gychwyn Clwb Roboteg Aberystwyth. Llwyddom i greu teulu o fyfyrrwyr ifanc lleol a ddeuai i'r campws bob wythnos. Teimlent fod y campws yn lle diogel iddynt feithrin eu diddordeb mewn roboteg ac i ennill sgiliau ar yr un pryd. Byddai'r sgiliau hyn yn sicrhau eu bod gam ymhellach na phawb arall gydol eu bywydau.

Drwy fod wedi ennill cymaint o brofiad yn y Brifysgol, dw i am roi rhywbeth yn ôl i'r myfyrrwyr gan fod gen i ddigon o brofiad bellach y gallaf ei rannu â nhw. Rwyf hefyd yn cyflwyno gwobr i fyfyriwr sy'n mynd i fod yn athro Ffiseg, ac rwy'n ei fentora ar hyd y daith honno."

Ymweliadau lleoliadau gwaith

Myfyrrwyr yn cwrdd â Jill Evans ASE ym Mrwsel

Tom Jones (Hanes a Hanes Cymru 1970), Aelod o Ddirprwyaeth Gwledydd Prydain, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, Brwsel.

Cafodd myfyrrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyfle i deithio i Frwsel i gysgodi Tom ym Mhwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, ac i weld sefydliadau gwleidyddol eraill yr Undeb Ewropeaidd wrth eu gwaith.

"Fel cyn-fyfyriwr Prifysgol Aberystwyth, mae'n ffrind gallu cynnig cyfleoedd i'r genhedlaeth bresennol gwrdd â swyddogion y llywodraeth ym Mrwsel, eu holi am eu gwaith ac i weld cynrychiolwyr o bob cwr o Ewrop yn cymryd rhan yng ngwaith creu polisïau. Mae amrywiaeth yn cyfoethogi'r dadlau, ac mae gwranddo yn dyfnhau ein dealltwriaeth!"



Liliana Castillo o Amigrow yng nghwmni'r Athro Donald Davies, Cadeirydd Panel Beirniad InvEnterPrize 2019

Cynhaef proffidiol InvEnterPrize i egin-fusnes amaeth

Menter newydd i gynorthwyo ffermwyr Colombia i wella cynhyrchiant cynydu yw enillydd diweddaraf InvEnterPrize, cystadleuaeth ar ffurf 'Dragon's Den' i fyfyrrwyr mentrus Prifysgol Aberystwyth.

Datblygwyd Amigrow gan dîm rhyng-ddisgyblaethol dan arweinyddiaeth myfyrrwraig PhD o Golombia, Liliana Castillo. Ei nod yw defnyddio technoleg lloeren a dysgu peirianyddol i gynorthwyo ffermwyr gyda'u penderfyniadau.

Ynghyd â theitl InvEnterPrize 2019, mae Amigrow yn derbyn £10,000 i'w fuddsoddi er mwyn datblygu'r cysyniad a'i baratoi ar gyfer y farchnad.


Roedd cynllun busnes Amigrow yn un o bymtheg cais ar gyfer InvEnterPrize 2019, gyda chwech yn cyrraedd y rownd derfynol ac yn cyflwyno'u syniadau i'r beirniad ar 29 Mawrth 2019.

Dyweddodd trefnydd InvEnterPrize a hyrwyddwr menter Prifysgol Aberystwyth, Tony Orme: "Mae safon y ceisiadau eleni wedi bod yn eithriadol o uchel ac roedd pawb yn agos iawn yn y rownd derfynol. Rydym yn eithriadol ddiolchgar i'n panel o feirniad am eu hamser gwerthfawr a'u harbenigedd wrth i ni chwilio am enillydd eleni, ac i gyn-fyfyrrwyr y Brifysgol am ei gwneud hi'n bosibl i gynnal y gystadleuaeth trwy Gronfa Aber. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Liliana a'i chyd-weithwyr ar Amigrow, wrth i'r cysyniad gael ei ddatblygu."

Enillodd Amigrow hefyd y wobwr am gyflwyniad gorau InvEnterPrize yn y sectorau biowyddoniaeth, technoleg amaeth, a bwyd a diod, a'r wobwr oedd gofod swyddfa am flwyddyn yn ArloesiAber, sef Campws Arloesi a Menter Aberystwyth - datblygiad £40.5m ar Gampws Gogerddan y Brifysgol.

Mae InvEnterPrize bellach yn ei ôed blwyddyn, ac fe'i sefydlwyd i annog diwylliant o fentro. Mae'n rhan o raglen lawn o ddigwyddiadau a drefnir yn y Brifysgol i gefnogi gweithgaredd entrepreneuriaid ymhlith myfyrrwyr, cyn-fyfyrrwyr a staff. I ddysgu mwy ewch i: www.aber.ac.uk/cy/careers/starting-business/enterprise

Rhoi i Brifysgol Aberystwyth 2018-2019



Hayley Goddard
Swyddog Rhoddion
Unigol

Diolch i'ch cefnogaeth barhaus chi i fyfyrwyr Aber, mae eich effaith gadarnhaol wedi'i themlo ar draws y Brifysgol.

Rydych chi wedi cynnig y profiad gorau bosibl a chymorth i ysbrydoli myfyrwyr o bob cefndir i lwyddo yn eu hastudiaethau a thu hwnt. Rydych chi hefyd wedi helpu i ymchwilio i ddatrysiadau i heriau byd-eang fel newid yn yr hinsawdd a chlefydau.

Yn hollbwysig, rydych chi wedi dod ynghyd fel cymuned i helpu i sicrhau cyllid hanfodol ar gyfer dyfodol yr Hen Goleg (gweler tudalen 6), yn ogystal â chynnal y cyfanswm a godwyd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

Mae cydweithio â chymuned mor ysbrydoledig o gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr sy'n gwneud gwahaniaeth enfawr i Aber yn galonogol. Allen ni ddim bod yn fwy diolchgar i chi am eich cymorth.

Diolch i'n holl roddwyr sydd wedi'u rhestru yn ein rhestr flynyddol o roddwyr www.aber.ac.uk/cy/development/support/thank-you

Eich rhoddion yn 2018-19

Ar draws ein tair blaenoriaeth codi arian :

£149,905



Apêl yr Hen Goleg

£18,391



Datblygiadau Academaidd ac Ymchwil

£71,315



Cymorth i Fyfyrwyr (Cronfa Aber)

"Rwy'n teimlo'n hynod o freintiedig i fod wedi derbyn cyllid a oedd yn gymorth gwirioneddol i fi mewn cyfnod anodd yn ariannol ac a ganiataodd i fi gwblhau fy nhraethawd ymchwil. Gobeithio, dros amser, y byddaf innau'n gallu dangos yr un haelioni i genedlaethau o fyfyrwyr Aber yn y dyfodol ag yr ydych chi wedi'i ddangos i fi. Diolch."

Laura PhD Hanes, a dderbyniodd grant Caledi Myfyrwyr

CIPOLWG AR Y GYMUNED O RODDWYR

Rhoddoch chi
£239,611
yn ystod 2018-19



Rhodd fisol reolaidd ar gyfartaledd **£14**



Rhodd unigol ar gyfartaledd **£96**



Nifer y rhoddwyr unigol **816**



Gan Ymddiriedolaethau **£230,298** a Sefydliadau

23 o brosiectau myfyrwyr wedi'u cyllido ar draws y Brifysgol

Helpu myfyrwyr i gymryd rhan mewn prosiectau newydd na fyddai wedi bod yn bosibl heb eich help chi.

Dros 1,800 o fyfyrwyr wedi'u cefnogi

Lliniaru caledi myfyrwyr; cefnogi lles myfyrwyr; a chynyddu nifer y cyfleoedd sy'n agored i bob myfyriwr.

Eich effaith 2018-19

Llwyddiant yr Ymgyrch Ffôn

Diolch i bawb a roddodd mewn ymateb i'r ymgyrch ffôn y llynedd. Bu 35 o fyfyrwyr yn ffonio mwy o gyn-fyfyrwyr nag erioed o'r blaen, gan ailgysylltu â chyn-fyfyrwyr a chefnogwyr ar draws y byd. Golygodd eich cefnogaeth ryfeddol bod £104,498.16 wedi'i addo i apêl yr Hen Goleg .



Saethwyr Aber ar y llwyfan rhyngwladol

Cafodd y myfyrwyr Beth ac Alex gyfle unwaith ac am byth i gynrychioli Tîm Prydain ym Mhencampwriaethau Saethyddiaeth Ewrop. Gan chwifio baner Aber yn Gothenburg, dywedodd Beth

"Heb y Fwrsariaeth Teithio gan Gronfa Aber, fyddai'r twrnaint hwn ddim wedi bod yn bosibl i fi".

Prosiect y Rhyfel Byd Cyntaf

Galluogodd bwrsariaeth lleoliad gwaith y myfyrwyr Jack ac Alice i gymryd rhan a chyfrannu yn y prosiect ymchwil cydweithredol, Aberystwyth a'r Rhyfel: 1914-19.

"Mae'r profiad heb os wedi datblygu fy sgiliau ymchwil a'm gwybodaeth hanesyddol. O bori drwy gofnodion cynradd yn Archif Ceredigion i nodi ble'r oedd milwyr yn byw yn Aberystwyth – mae gweithio ar y prosiect wedi bod yn brofiad hynod werthfawr ac yn un a fydd o bosib yn dylanwadu ar lwybr fy ngyrfa yn y dyfodol. Rwyf wedi mwynhau bob munud!"

Alice, Myfyriwr Hanes BA.



Mentoriaid Arian Myfyrwyr

Prosiect newydd gan Undeb y Myfyrwyr a'r Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr yw 'Mentoriaid Arian'. Caiff gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr ("Bydis Arian") eu hyfforddi i roi cyngor ac arweiniad i'w cymheiriaid sy'n ei chael yn anodd rheoli eu harian.

Y Bydi Arian Pippa sy'n esbonio

"Mae arian yn rhan mor bwysig o fywyd myfyrwyr. Dyw benthyciadau cynhaliaeth ddim bob amser yn ddigon, ac mae gweithio rhan amser yn iawn tan i oriau a therfynau amser gwaith y brifysgol fynd yn straeon. Os galkwn ni helpu mae'n un peth yn llai i boeni amdano yn y Brifysgol, sy'n rhoi mwy o amser i ganolbwyntio ar astudio. Diolch i'r cyn-fyfyrwyr am wneud hyn yn bosibl!"

Ceir rhagor o straeon am eich effaith yma:
www.aber.ac.uk/cy/yourimpact

CEFNOGI'R BRIFYSGOL



Mae eich cefnogaeth chi'n hanfodol er mwyn i Aber barhau i lwyddo, ac rydym ni'n gwerthfawrogi pob rhodd, boed honno'n fach neu'n fawr. Gan weithio gyda'n gilydd, ein nod yw cynyddu ein hincwm codi arian yn sylweddol ar draws ein tri maes blaenoriaeth:

CYMORTH I FYFYRWYR (CRONFA ABER)

APÊL YR HEN GOLEG

DATBLYGIADAU ACADEMAIDD AC YMCHWIL

Gallwch chi wneud gwahaniaeth drwy roi

- **Ar-lein:** gallwch roi'n rheolaidd neu roi unwaith yn unig www.aber.ac.uk/rhoi
- **Post:** gallwch drefnu i gyfrannu'n rheolaidd drwy'r ffurflen roi, neu gyfrannu unwaith gyda siec
- **Tramor:** Gall cefnogwyr rhyngwladol gyfrannu mewn cydweithrediad â'n partneriaid: SWIFT system; American Fund for Charities (AFC); a'r British Schools and Universities Foundation (BSUF).

I gael rhagor o wybodaeth neu drafod rhodd, cysylltwch â **Hayley Goddard** yn y tîm Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr ar: ☎ 01970 622083 neu @ hvg@aber.ac.uk

Pwysigrwydd Ymchwil



Ymgymerodd yr Athro Colin McInnes â swydd Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi ym mis Hydref 2019. Ag yntau'n aelod o staff ym Mhrifysgol Aberystwyth ers dros 30 mlynedd, cyn hyn bu'r Athro McInnes yn Bennaeth yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn Ddeon Astudiaethau Uwchraddedig ac yn Gyfarwyddwr Rhagoriaeth Ymchwil. Mae ganddo gadair bersonol yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a rhwng 2007-18, ef oedd deiliad Cadair UNESCO mewn HIV/AIDS a Diogelwch Iechyd - y Gadair UNESCO gyntaf yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Comisiwn Cenedlaethol y DU dros UNESCO ac mae'n cynrychioli'r DU ar Gomisiwn Gwyddorau Cymdeithasol a Dynol UNESCO. Yma mae'r Athro McInnes yn trafod pwysigrwydd ymchwil yn Aberystwyth.



Yr Athro Colin McInnes
Dirprwy Is-Ganghellor - Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi

Mae ymchwil yn bwysig. Mae'n bwysig am amrywiaeth eang o resymau, ond yma hoffwn ganolbwyntio ar dair egwyddor sy'n llywio ein Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd.

Yn gyntaf, mae ymchwil yn llywio ein haddysgu yn Aberystwyth ac yn cyfoethogi'r profiad dysgu. Caiff ein myfyrwyr eu haddysgu gan staff sy'n siapio ein dealltwriaeth o'r byd rydym ni'n byw ynddo ac sy'n gwthio ffiniau'r hyn rydym ni'n ei wybod, gan ddarparu amgylchedd dysgu nodedig a chyffrous. Er enghraifft, mae amrywiol Adranau wedi bod yn ymgymryd ag ymchwil ar newid yn yr hinsawdd dros flynyddoedd lawer, yn cynnwys gwaith sy'n arwain y byd ar erydu rhewlifoedd.

Mae hyn wedi caniatáu i ni gyflwyno cynllun gradd newydd yn y maes hanfodol hwn, gyda'r garfan gyntaf o fyfyrwyr yn cyrraedd ym mis Medi 2020. Rydym ni'n gweld y cyswllt hwn rhwng ymchwil ac addysgu ar draws y Brifysgol gyfan, gan ychwanegu gwerth i'r profiad dysgu a chaniatáu i'n myfyrwyr fanteisio ar syniadau arloesol, o gelfyddyd perfformio i ffenomeg.

Yn ail, caiff cymdeithas fudd o'n hymchwil. Mae'n cael effaith ar yr economi, ar wella'r amgylchedd, ar bolisi cyhoeddus ac ar fywyd diwylliannol yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n edrych allan, ac yn ymgysylltu â chymunedau. A thrwy bartneriaethau masnachol, mae'n helpu i ddatblygu cynhyrchion a thechnegau newydd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym ni wedi cydnabod y cyfraniad hwn drwy gyflwyno dyfarniadau am effaith eithriadol yn y cynulliad graddio, lle caiff myfyrwyr a'u teuluoedd weld sut mae'r gwaith rydym ni'n ei wneud yn dod â budd i'r byd rydym ni'n byw ynddo. Mae'r dyfarniadau hyn wedi cynnwys ymchwil arloesol i reoli malaria, datblygiadau polisi i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg, a defnyddio dulliau

genetig i gefnogi rheolaeth effeithiol a chynaliadwy mewn pysgodfeydd ar draws y byd.

Ond crafu'r wyneb yn unig yw hyn, a bydd dros 50 o enghreifftiau rhagorol o effaith yn rhan o'n cyflwyniad i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU yn ddiweddarach eleni. Mae'r astudiaethau achos hyn yn amrywio o ddiogelu stociau tiwna yng Nghefnfor India, i ymchwil i seliau canoloesol sy'n cynnig potensial ar gyfer gwell fforenseg ddigidol; o gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig hyn i helpu Sefydliad Iechyd y Byd i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer cymorth milwrol mewn argyfyngau iechyd; ac o waith ar gerbyd Asiantaeth Gofod Ewrop ar blaned Mawrth, i wneud barddoniaeth Gymraeg yn gyffrous a hygyrch i genhedlaeth newydd o ddisgyblion ysgol. Ac yn y dyfodol, rydym ni'n edrych ymlaen eleni at agor y campws Arloesi a Menter yng Ngogerddan a chyfleusterau Canolfan a Labordai Milfeddygol ym Mhenglais.

“Pa mor gryf yw fflachiadau solar? Sut caiff swigod eu ffurfio? Beth oedd effaith dyfodiad y Normaniaid yn 1066 ar ddatblygiad yr iaith Saesneg?”

Yn bennaf oll, ymgais i geisio gwybodaeth yw ymchwil. Fel rhywogaeth, rydym ni'n chwilfrydig - ynglŷn â'r byd rydym ni'n byw ynddo, ynglŷn â bydoedd eraill boed wir neu yn y dychymyg, ac ynglŷn â syniadau. Ein rôl ni fel Prifysgol yw gwneud hyn mewn modd trylwyr a diduedd, ac yn aml mae'n dechrau gyda chwestiwn. Pa mor gryf yw fflachiadau solar? Sut caiff swigod eu ffurfio? Beth oedd effaith dyfodiad y Normaniaid yn 1066 ar ddatblygiad yr iaith Saesneg? Sut gallwn ni osod gwerth ar fioamrywiaeth? A all chwaraeon drawsnewid cymdeithasau? A all swm fod yn gelfyddyd? Ond mae hefyd yn

ymwneud â gwthio ffiniau, boed mewn ffilm ac ysgrifennu creadigol, datblygu amrywiadau cnydau newydd, neu wthio ffiniau uwchgyfrifadur.

Mae'r rhain i gyd a mwy yn gwneud Aberystwyth yn lle cyffrous a phwysig i astudio a gweithio ynddo. A rôl y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd yw parhau i ddatblygu amgylchedd ymchwil uchelgeisiol, cynhwysol sy'n edrych allan, gan weithio ar ran ein myfyrwyr ac ar ran cymdeithas ac er mwyn i ni allu gwybod mwy am y byd rydym ni i gyd yn byw ynddo.

Anrhydeddau

Anrhydeddwyd nifer o unigolion gan y Brifysgol yn rhan o'r seremonïau graddio ym mis Gorffennaf 2019.

CYMRODORIAETH ER ANRHYDEDD



Alan Phillips
- athro cerdd peripatetig wedi ymdeol a weithiodd i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am 35 mlynedd (cyn-fyfyriwr - BMus, 1981)




Yr Athro Frank N. Hogg OBE
- Pennaeth cyntaf Coleg Llyfrgellyddiaeth Cymru



Ruth Bidgood
- Bardd a hanesydd lleol




Yr Athro R Geoff Richards
- Cyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil AO Davos, Y Swistir - un o'r sefydliadau ymchwil sy'n arwain y byd ym maes orthopedeg (cyn-fyfyriwr - BSc Biolog Celloedd ac Imiwnobiolog, 1990; MSc, 1991; PhD, 1997)



Emyr Jenkins
- Cyfarwyddwr cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol a chyn-Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru (cyn-fyfyriwr - BSc Ffiseg, 1961)



Yr Athro Virginia Gamba
- arbenigwraig flaenllaw ym maes ymchwil diarfogi a llunio polisi (cyn-fyfyriwr - MSc Astudiaethau Strategol, 1981)



Ian Hopwood
- cyn-gynrychiolydd gydag UNICEF (cyn-fyfyriwr - BScEc Gwleidyddiaeth, 1970)



Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AM
- cyn-Brif Weinidog Cymru a chyn-Arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru 2009-18 (cyn-fyfyriwr - LLB, 1998)



Judith Diment
- ffigwr amlwg yn fyd-eang yn yr ymgyrch i ddileu polio (cyn-fyfyriwr - BSc Daeareg a Daearyddiaeth, 1967)

Llwyddiannau

STAFF A MYFYRWYR

Llongyfarchiadau i enillwyr Gwobrau Staff a Myfyrrwyr UMAber 2019 sy'n cynnwys **Yr Athro Karl Hoffmann** (Athrofa y Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig) a enillodd Oruchwyliwr y Flwyddyn, **Doug Kerr** (Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr) a enillodd Aelod Staff Ategol / Gwasanaeth y Flwyddyn, **Yr Athro Andrew Evans** (Ffiseg) a enwyd yn Diwtor Personol y Flwyddyn a **Deena Bhooyro** (Cangen Aberystwyth Campws Mawrisiws) a dderbyniodd wobwr Darlithydd y Flwyddyn.

Enillwyr cyntaf Gwobrau Teilyngdod Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth, sy'n cydnabod myfyrrwyr sydd wedi rhagori yn eu disgyblaeth a'u cyfraniadau at glybiau a

chymdeithasau'r Brifysgol, oedd **Christopher Cassells** (Saethyddiaeth), **James Coulton** (Rygbi) a **Zenan Ibrahim** (Pŵl). Ariennir y gwobrau newydd hyn gan gyn-fyfyrrwyr drwy Gronfa Aber.

Mae Gwobrau Gŵyl Dewi Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod cyfraniad myfyrrwyr a chyd-weithwyr at y Gymraeg. Enillwyr 2019 oedd: **Janet Hardy** (Dysgwr Disglair - staff), **Trish Sadler-McGrath** (Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle), **Demi John** (Astudio trwy'r Gymraeg), **Anne Robbins** a **Rebecca Snell** (Hyrwyddwyr y Gymraeg - myfyrrwyr), a **Dr Elin Royles** (Cyfraniad Arbennig i'r Gymraeg).

Daeth **Steffan Rees**, myfyriwr BSc Amaethyddiaeth o Lanarth, Ceredigion, yn ail yng

ngystadlueaeth Myfyriwr Llaeth y Gymdeithas Frenhinol Ffermwr Llaeth Prydeinig 2019.

Enillodd y myfyrrwyr **Jenny Edwards** ac **Ola Tomkiewicz** (Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu) ymweliad pedwar diwrnod â Gŵyl Ffilm Tribeca yn Efrog Newydd yn Ebrill 2019, diolch i gyfraniadau gan gyn-fyfyrrwyr drwy Gronfa Aber.

Curodd tîm o fyfyrrwyr BSc Amaethyddiaeth o Athrofa'r Gwyddorau Biologol, Amgylcheddol a Gwledig - **Philip Dray**, **Olivia MacGarvie**, **William Watson** a **Will Davies** - dimau o brifysgolion a cholegau eraill i ennill Cwpan Agronomeg NIAB 2019. Tîm IBERS yw'r cyntaf i gipio'r tlws ddwywaith ers i'r gystadlueaeth gychwyn.



O'r top i'r gwaelod: Enillwyr Gwobrau Gŵyl Dewi 2019, Tîm enillwyr Cwpan Agronomeg NIAB 2019





Etholwyd yr arbenigwr ar gyfraith ymfudo a masnachu pobl, **yr Athro Ryszard Piotrowicz** (Y Gyfraith a Throsedd) yn Is-Lywydd GRETA, sef Grŵp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu Pobl, sydd wedi'i leoli yn Strasbourg.

Etholwyd **yr Athro Matthew Jarvis, yr Athro Peter Midmore, Dr Helen Ougham, yr Athro Phillipp Schofield a'r Athro Elan Closs Stephens** yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru yng ngwanwyn 2019.

Enillodd y myfyriwr Biocemeg **Eleanor Wilson** y brif wobwr yng Ngwobrau STEM *The Telegraph* am syniad radical ar gyfer prawf symudol newydd i ganfod y diciâu mewn pobl.

Enillodd **Dr Alexandros Koutsoukis a Dr Jenny Mathers** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) Wobr Rhagoriaeth mewn Addysgu Astudiaethau Rhyngwladol Cymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol Prydain am ddefnydd arloesol o straeon newyddion cyfoes yn eu modiwl 'Behind the Headlines'.

Enillodd **Dr Lowri Cunnington Wynn** (Y Gyfraith a Throsedd) y wobwr am yr erthygl orau a gyhoeddwyd yn *Gwerddon* yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae erthygl Lowri yn trafod allfudo ymysg pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg eu hiaith o safbwynt eu dyheadau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Enillodd **Alison Piers**, Tiwtor Celf Dysgu Gydol Oes, Wobr Cwrs Nodedig Prifysgol Aberystwyth 2018-19 am ei modiwl dysgu o bell Hanes Celf, *Figuratively Speaking: The History of Western Figurative Sculpture*. Cafodd y canlynol ganmoliaeth uchel: **Tim Dysgu** o Bell IBERS - *Research Methods*, **Dr Stephen Chapman**, IBERS - *Future of Packaging*, **Dr Alexandros Koutsoukis**, Gwleidyddiaeth Ryngwladol - *Behind the Headlines* a **Dr Jennifer Wood**, leithoedd Modern - *Sbaeneg (i Ddechreuwyd)*.

Cyflwynwyd Gwobr y Brifysgol am Effaith Eithriadol mewn Ymchwil yn y Gwyddorau Cymdeithasol, y Celfyddydau a'r Dyniaethau i'r **Athro Colin McInnes** (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) am ei waith ymchwil a arweiniodd at ddatblygu fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer iechyd sifiliaid drwy gydweithredu â sefydliadau milwrol pan geir achosion torfol o salwch. Derbyniodd **yr Athro Paul Shaw** (Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig) Wobr Effaith Eithriadol mewn Ymchwil Gwyddonol am ei waith yn defnyddio dulliau genynnol i gynorthwyo dulliau effeithiol a chynaliadwy o reoli pysgodfeydd.

CYN-FYFYRWYR

Cyrhaeddodd chwech o gyn-fyfyrrwyr Aber restr fer Llyfr y Flwyddyn Cymru 2019 - **Emyr Lewis** (*Twt Lo!*), **Manon Rhys** (*Stafell fy Haul*), **Jerry Hunter** (*Ynys Fadog*), **Heiddwen Tomos** (*Esgyrn*) **Andrew Green** (*Cymru mewn 100 Gwrthrych*) a **Mari Ellis Dunning** (*Salacia*).

Dechreuodd cyn-fyfyriwr Astudiaethau Ffilm a Theledu, **Richie Driss** gyflwyno *Blue Peter* ar CBBC yn Ebrill 2019.

Mae un o raddedigion Astudiaethau Gwleidyddol, **Virginijus Sinkevičius** o Lithwania, wedi ei ethol yn Gomisiynydd yr UE dros yr Amgylchedd, Cefnforoedd a Physgodfeydd.

Mae cyn-fyfyriwr Hanes, **Katy Bourne OBE** sef Comisiynydd Heddlu a Throsedd Sussex, wedi ei ethol yn gadeirydd Cymdeithas Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.



O'r top: Eleanor Wilson, Dr Jenny Mathers a Dr Alexandros Koutsoukis, Alison Piers, Yr Athro Paul Shaw, Richie Driss, Virginijus Sinkevičius.

Penodiadau

Yr Athro Colin McInnes
- Dirprwy Is-Ganghellor
- Ymchwil, Cyfnewid
Gwybodaeth ac Arloesi

Mr Nicholas Rogers
- Cyfarwyddwr Adnoddau
Dynol a Datblygu Sefydliadol

Yr Athro Emyr Lewis
- Pennaeth Adran y Gyfraith a
Throsedd

Yr Athro Iain Donnison
- Pennaeth Sefydliad y
Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig
(IBERS)

Yr Athro Andrew Thomas
- Pennaeth Ysgol Fusnes
Aberystwyth

Dr Sarah Davies - Pennaeth
yr Adran Daearyddiaeth a
Gwyddorau Daeareg

Mr Simon Banham
- Pennaeth yr Adran
Astudiaethau Theatr, Ffilm a
Theledu (tan fis Gorffennaf
2020)

Dr Patrick Finney
- Pennaeth yr Adran
Gwleidyddiaeth Ryngwladol
(tan fis Awst 2020)

Yr Athro Simon Cox
- Pennaeth yr Adran
Fathemateg (ailbenodwyd)

Yr Athro Nigel Holt
- Pennaeth yr Adran Seicoleg
(ailbenodwyd)

Dr Louise Marshall
- Pennaeth yr Adran Saesneg
ac Ysgrifennu Creadigol
(ailbenodwyd)

Er Cof

Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi colli cyn-fyfyrrwyr, cymrodyr ac aelodau staff y cawsom wybod am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysfa a theuluoedd a chyfeillion y rhai a restrir yma.

*Aelod o Gymdeithas y Gyn-fyfyrrwyr

CYMRODYR

Adams CMG, Dr Terry Adams
(Daeareg, 1960), bu farw Ebrill
2019 *

Price, Mr Gareth (Economeg,
1961), bu farw Awst 2018*

Sheehy OBE, Dr John (Ffiseg,
1965), Bu farw Mehefin 2019

STAFF

Batten, Yr Athro David, bu farw
Chwefror 2019

Dieneman, William Wolfgang,
bu farw 2018*

Greaves, Yr Athro Neville, bu
farw Mehefin 2019*

Green, Dr David, bu farw
Ionawr 2019*

James, Paul, bu farw 2019

Jones, Yr Athro Bill, bu farw
Gorffennaf 2019*

Lewis, Dr C Roy, bu farw 2019*

Lloyd, Yr Athro Noel G, bu
farw 2019*

Mills, Yr Athro Maldwyn, bu
farw Tachwedd 2019

Rees, Mr Barry, bu farw 2019

Turner, Dr John, bu farw Awst
2018

CYN-FYFYRWYR A CHEFNOGWYR

Adkins, Mr Leslie (Addysg,
1992), bu farw 2019

Ashley, Ms Gwenllian, née
Jones (Amaethyddiaeth, 1999),
bu farw Mai 2019

Barber, Dr Peter (Daeareg,
1972), bu farw Rhagfyr 2018*

Bohana MBE, Mr Roy
(Cerddoriaeth, 1959), bu farw
Ionawr 2019*

Bowen, Yr Athro Kenneth
(Cerddoriaeth, 1953), bu farw
Medi 2018*

Brace, Mr John (Addysg, 1949),
bu farw Mehefin 2019*

Burden, Mr Arthur (Economeg,
1956), bu farw Mai 2019*

Corlett, Miss Sarah
(Astudiaethau Busnes 2001),
bu farw Rhagfyr 2017

Davies, Dr Hubert
(Mathemateg, 1941), bu farw
Awst 2018*

Dawson, Ms Daphne (Celf,
1981), bu farw 2018

Hayhurst, Dr Ann Elaine, née
Lewis (Cemeg 1980), bu farw
Gorffennaf 2018*

Hides, Dr David (Botaneg
Amaethyddol), bu farw
Gorffennaf 2019

Hudson, Mrs Suzanne, née
Powell (Daearyddiaeth, 1966),
bu farw Mai 2019*

Hughes, Mr George
(Gwleidyddiaeth a Hanes
Economaidd, 1986), bu farw
Ionawr 2019*

Hughes-Jones, Mrs Glenys, bu
farw Ionawr 2019

Humphreys, Mr Geraint
(Gwleidyddiaeth, 1970), bu
farw Rhagfyr 2018

Kettle, Mr Kevin (Hanes, 1980),
bu farw Ionawr 2019

Lewis, Miss Jenny
Vernon (Daearyddiaeth a
Gwleidyddiaeth Ryngwladol,
1968), bu farw 2018

Loveland, Ms Josephine, née
Elder (Gwleidyddiaeth, 1972),
bu farw Medi 2018

Mason, Yr Athro Haydn
(Ffrangeg, 1949), bu farw Awst
2018*

Matthews, Ms Barbra (Celf
Gain, 2005), bu farw Tachwedd
2018

Morgan, Mr Dennis (Cemeg a
Chemeg Amaethyddol, 1949),
bu farw Chwefror 2019*

Morgan, Mr Eric
(Daearyddiaeth, 1950), bu farw
Ebrill 2019*

Morgan, Mr Phillip
(Mathemateg, 1975), bu farw
Ionawr 2019*

Morgan, Mr Gareth
(Mathemateg, 1976), bu farw
Mai 2019

Phillips, Mr Nicholas
(Mathemateg), bu farw Medi
2018

Prosser, Mr Colin (Cemeg
1955), bu farw Awst 2018*

Pyrah, Mr Patrick (Ffiseg, 1947),
bu farw Mai 2019*

Robinson, Mr Geoffrey
(Bioleg), bu farw Tachwedd
2018

Rowlands, Mrs Gillian, née
Rees (Addysg, 1963), bu farw
Ionawr 2019*

Semple, Ms Isabella, née
Martin (Addysg, 1976), bu farw
Mehefin 2019

Sullivan, Ms Rebecca
(Ffrangeg, 2016), bu farw
Hydref 2018

Williams, Mr Meurig (Ffiseg,
1972), bu farw Rhagfyr 2018*

Williams, Mr Llew
(Gwleidyddiaeth a Hanes
Modern, 2014), bu farw Ebrill
2019

Wilson, Miss Faye (Sŵoleg,
2007), bu farw 2019

Wright, Mr Wally (Daeareg A
Daearyddiaeth, 1957), bu farw
Ebrill 2019

Os gwyddoch chi fod ein gwybodaeth yn anghywir, neu os hoffech roi gwybod am farwolaeth un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost at: alumni@aber.ac.uk.

Atgofion Chwaraeon

Sporting Memories

Mae myfyrwyr Aber bob amser wedi bod yn griw bywiog, yn cymryd rhan mewn chwaraeon o bob math, boed yn gystadleuol neu ddim ond am hwyl. Isod mae ychydig o ddelweddau o Archifau'r Brifysgol, sy'n dangos rhai o'r gweithgareddau a'r cyfleusterau ar hyd y blynyddoedd.

Rydym wastad yn chwilio am fwy o luniau, yn enwedig o'r 1970au ymlaen, felly ymunwch â'r sgwrs a rhannwch eich atgofion â ni:

Aber students have always been an active bunch, taking part in sports of all kinds, whether competitively or just for fun. Below are just a few images from the University Archives, showing off some of the activities and facilities on offer through the years.

We are always on the lookout for more photographs, particularly from the 1970s onwards, so please join the conversation and share your memories with us:



Tim Cychod Merched, c1909. Byddwch wyliadwrus o'r ci!

Women's Boating, c.1909. Don't mess with the boatman's dog!

- @AberUniArchives
- archives@aber.ac.uk
- Cyn-fyfyrwyr Aber | Aberystwyth Alumni

Raced 'Y Cythraul'. Clwb Tennis CPC, dyblau merched 1905, a enillwyd gan F. Gauntlett ac M. Williams

'The Demon' racket. UCW Tennis Club, 1905 Ladies Doubles Handicap, won by F. Gauntlett and M. Williams



Pêl-fasged yn y neuadd chwaraeon | Basketball in the sports hall



Y trac rhedeg ar Benglais, yn dangos y pwll nofio cyn adeiladu'r neuadd chwaraeon | The running track on Penglais, showing the swimming pool before the building of the sports hall

Tim Gymnasteg, 1929, yn y gampfa ar Gaeau'r Ficerdy | Gymnastics Team, 1929, in the gymnasium at Vicarage Fields



Tynnu rhaff, Cychod yn herio Pêl-droed, Mai 6, 1911, Caeau Ficerdy | Tug-of-war, Football Vs Boating, May 6, 1911, Vicarage Field

Cyfril 1 o Thrutch, 'cylchlythyr tanddaearol swyddogol Aber', Nadolig 1979, y Clwb Ogofa | Volume 1 of Thrutch, 'Aber's official underground newsletter', Christmas 1979, mouthpiece of the Caving Club



XI cyntaf tîm Pêl-droed, 1894-5, gan gynnwys y gôl-geidwad Leigh Richmond Roose | Football First XI, 1894-5, including goalkeeper Leigh Richmond Roose



Cynllun ar gyfer y Neuadd Chwaraeon arfaethedig ar Benglais | Design for the proposed Sports Hall on Penglais